Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Annwyl Graham Boase,

Diolch am ymgysylltu'n gadarnhaol â'n trafodaethau yn ystod y gweithdy diweddar ar risg a sicrwyddau. Rwy'n ysgrifennu i amlinellu'r sicrwyddau a'r risgiau a drafodom yn ystod y gweithdy hwnnw sydd wedi'u seilio ar ein gwaith gyda'r awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Amlygom y sicrwyddau canlynol:

- **Mae'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cydweithio'n effeithiol**

Mae'r cydweithio proffesiynol rhwng y ddau wasanaeth yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd. Mae'r cyfarfodydd ar draws sectorau, er enghraifft cyfarfodydd y Ddarpariaeth Amlasiantaethol (MAP), wedi hen ennill eu plwyf ac yn gyfle i rannu gwybodaeth berthnasol a chynnig darpariaeth deilwredig o ran presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr unigol. Mae hyfforddiant ychwanegol gan y ddau wasanaeth i uwchsgilio staff bugeiliol mewn ysgolion i ddarparu cymorth i grwpiau gyda dysgwyr nodedig wedi bod yn fuddiol, er enghraifft o ran cynorthwyo dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu o'r newydd. Dywed arweinwyr mewn gwahanol ddarparwyr eu bod yn teimlo y cânt gymorth da gan swyddogion.

- **Mae gwybodaeth y swyddogion am ddarparwyr yn effeithiol, ar y cyfan, o ran her a chymorth i arweinwyr**

Mae'r swyddogion yn gwybod yn dda beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r Swyddogion Cymorth i Deuluoedd yn rhan werthfawr o'r gwasanaeth ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarn gyda dysgwyr a'u teuluoedd. Mae'r bartneriaeth gref hon yn helpu dysgwyr i ymgysylltu â dysgu. Mae arweinwyr ysgolion wedi cael eu hyfforddi i fod yn ymarferwyr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma, ac mae arweinwyr bellach yn 'hyfforddi' eu staff gan y bu'r galw mor uchel.

- **Deilliannau arolygu ers ailddechrau ym mis Chwefror hyd at fis Rhagfyr 2022**

- Ysgolion nas cynhelir: 6
- Cynradd: 4 (gan gynnwys 2 astudiaeth achos arfer orau)
- Uwchradd: 3 (2 yn y categori mesurau arbennig)
- Arbennig / Unedau Adnoddau Disgyblion: 2 (1 ysgol arbennig annibynnol ac 1 coleg arbennig annibynnol) ac 1 ysgol annibynnol

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae deilliannau arolygu yn gryf ar draws y rhan fwyaf o sectorau, ar y cyfan. Fodd bynnag, gosodwyd 1 ysgol uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Gorffennaf 2022.

- **Cafwyd gwybodaeth werthfawr ynghylch effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn ymweliad thematig Estyn ynglŷn â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (Hydref 2022)**

Caiff yr holl benderfyniadau am addysg heblaw yn yr ysgol eu gwneud trwy baneli amlasiantaethol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r byd addysg, gwasanaethau cynhwysiant, iechyd, seicoleg, swyddogion lles addysg, SNAP Cymru, cyfiawnder ieuenctid.

Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn eang, ar y cyfan, ac yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae gofynion y cwricwlwm wedi'u hamlinellu'n glir, er enghraifft gan yr uned cyfeirio disgyblion, ac fe gânt eu goruchwylio gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r pwyllgor rheoli. Yn ddiweddar, mae'r ALl wedi datblygu polisi drafft ynghylch amserlen ran-amser disgyblion o ran mapio ac olrhain, a pha mor aml y dylid cynnal yr adolygiadau.

Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn disgwyl i'r holl ddysgwyr sy'n cael mynediad at unrhyw ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ailintegreiddio i addysg brif ffrwd, addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Caiff staff o fewn y tîm allymestyn eu cyflogi i gynorthwyo ysgolion a dysgwyr yn ystod y broses hon. Caiff dysgwyr ym Mlwyddyn 11 eu cynorthwyo trwy ddull amlasiantaethol trwy'r tîm Ymgysylltu a Chynnydd, sy'n cynnwys gwasanaethau fel Gyrfa Cymru, Gwasanaeth Ieuenctid, ac ati. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn briodol ar gyfer dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Darperir y gwerthusiad trwy'r adroddiadau sydd wedi'u drafftio ar gyfer craffu a'r consortiwm rhanbarthol.

- **Cymorth buddiol ar gyfer diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae'r cymorth ADY ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd yn gryfder yn yr awdurdod lleol yn rhannol oherwydd y cydweithio effeithiol rhwng Gwasanaethau Addysg a Phlant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gadarnhaol am y gweithdai a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol, er enghraifft i gynorthwyo Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) ag ansawdd y Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer disgyblion y nodwyd bod angen mwy o gymorth arnynt yn eu dysgu. Yn ychwanegol, dywedant fod llinellau cyfathrebu gwybodaeth berthnasol i'r holl bartneriaid wedi bod yn effeithiol.

Mae'n ymddangos bod y bartneriaeth ranbarthol yn gryf ac yn helpu sicrhau cysondeb ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Mae'r Mapiau Darpariaeth wedi'i Chostio yn llywio gwaith partneriaid eraill, fel darpariaeth Tîm o Amgylch y Teulu, ac mae'r dull 'cydgysylltiedig' hwn yn effeithiol. Yn gyffredinol, ceir perthynas weithio fuddiol gyda'r bwrdd iechyd sy'n arwain at effaith gadarnhaol ar blant a'u teuluoedd.

- **Yn gyffredinol, mae cymorth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn diwallu anghenion arweinwyr ac ymarferwyr**

Dywed yr awdurdod lleol fod pob un o'r ysgolion cynradd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae cyfarfodydd unigol gyda phob un o'r ysgolion gan Bartneriaid Gwella Cymorth GwE yn darparu cynlluniau addysgiadol i gefnogi eu 'taith'. Dywed arweinwyr fod angen amser arnynt i 'gymryd rheolaeth' cyn gallu gwerthuso a gwneud mwy o gynnydd, er enghraifft darparu arweiniad ynghylch dealltwriaeth ddyfnach o asesu yn unol â'r Camau Cynnydd.

Dim ond 1 o'r 8 ysgol uwchradd (Ysgol Glan Clwyd), sydd wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn swyddogol er mis Medi 2022. Dywed y Cyfarwyddwr Addysg fod pob un o'r 7 ysgol uwchradd yn 'treialu'r' egwyddorion / fethodoleg i baratoi ar gyfer y gweithredu statudol yn B7 a B8 ym mis Medi 2023.

- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg uchelgeisiol**

Cymeradwywyd y cynllun gan aelodau'r Cabinet ar 25 Awst 2022. Mae'r cynllun dros dro 5 mlynedd wedi cael ei ddrafftio, ac mae'r swyddog arweiniol wedi'i secondio yn rhoi systemau ar waith, er enghraifft i sefydlu pwyllgorau i ymateb i bob un o 7 deilliant y cynllun.

Amlygom hefyd y risgiau canlynol y dylech chi eu hystyried fel rhan o'ch cynllunio gwelliant, yn ein barn ni.

- **Mae gan 16 o 55 (29%) o ysgolion yn yr ALl benaethiaid newydd a benodwyd er tymor yr haf 2020**

Mae gan yr awdurdod lleol broses ymsefydlu sefydledig ar gyfer penaethiaid newydd a benodwyd sy'n cynnwys rheolwr busnes a rheolwr cyllid i'w cynorthwyo yn eu rolau newydd. Caiff y cymorth hwn ei werthuso bob blwyddyn, a'i addasu yn dilyn adborth wedi'i ddarparu gan yr arweinwyr newydd. Mae nifer yr arweinwyr newydd yn amlygu risg bosibl o ran cynnal arweinyddiaeth effeithiol a chryf. Nid yw effaith y cymorth wedi cael ei gwerthuso eto.

- **Darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol anstatudol a statudol / ysgolion sy'n peri pryder**

- Er mis Chwefror 2022: mae 2 ddarparwr wedi cael eu gosod yn y categori adolygu gan Estyn, 0 mewn gwelliant sylweddol, ac 1 mewn mesurau arbennig
- Y sector nas cynhelir: 1 yn y categori adolygu gan Estyn (Early Learners Day Nursery)
- Cynradd: 1 yn y categori adolygu gan Estyn (Ysgol Fron Goch)
- Uwchradd: 2 mewn mesurau arbennig (1 mewn mesurau arbennig [Crist y Gair, a chyflwynwyd llythyr lles yn amlygu pryderon am ddiogelu]) ac mae Ysgol Uwchradd Dinbych wedi bod mewn mesurau arbennig er 2016 [7 ymweliad dilynol])

Mae effeithiolrwydd y cymorth wrth helpu ysgolion i wella a chael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn amrywiol; er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Dinbych wedi bod mewn mesurau arbennig am gyfnod hir iawn.

- **Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (Disgyblion nad ydynt yn trosglwyddo o B10 i B11) yn amrywiol**

Yn dilyn ymweliad thematig Estyn yn nhymor yr Hydref 2022 yn canolbwyntio ar addysg heblaw yn yr ysgol, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder am nifer y dysgwyr sy'n dychwelyd yn llwyddiannus i addysg brif ffrwd ac a gynhaliodd eu lleoliad yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf neu unrhyw flynyddoedd blaenorol eraill cyn y pandemig. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgwyr yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

- **Gwerthusiadau o wasanaethau sy'n canolbwyntio'n glir ar fesur deilliannau plant a phobl ifanc wrth dderbyn y cymorth**

Mae prosesau'r awdurdod lleol yn datblygu i ganolbwyntio'n fwy ar effaith ei wasanaethau ar les, cyrhaeddiad a deilliannau dysgwyr. Mae'r platfform consortia rhanbarthol newydd (C360) a ddatblygwyd yn cynorthwyo arweinwyr mewn darparwyr a swyddogion yn yr awdurdod lleol i rannu dogfennau a phapurau perthnasol mewn modd mwy cydlynol a chydweithredol. Y nod yw y bydd y system yn caniatáu tryloywder

rhwng yr holl bartneriaid a fydd yn arwain at becyn cymorth mwy teilwredig a chydnaws i ddiwallu anghenion ysgolion unigol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur y 'system' newydd hon ar brofiadau dysgwyr a chynnydd mewn darparwyr.

Amgylchiadau amrywiol ynghylch cyllideb yr ALl

Ar hyn o bryd, mae 3 ysgol uwchradd: (Ysgol Dinas Brân, Ysgol Uwchradd Y Rhyl ac Ysgol Glan Clwyd) sydd â chronfeydd sylweddol wrth gefn. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn monitro'r diffyg yng nghyllideb 3 ysgol trwy gynllun adferiad ariannol ac mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd mwy o ysgolion yn rheoli diffyg yn y gyllideb yn y dyfodol agos.

- **Effeithiolrwydd aelodau'r Pwyllgor Craffu**

Ar hyn o bryd, mae sesiynau craffu yn ymwneud yn fwy â rhannu gwybodaeth nag effaith systemau a gwasanaethau ar les a chynnydd dysgwyr. Mae bron pob aelod yn newydd i'w swydd, ac mae angen llawer o wybodaeth gefndir cyn symud yr agenda ymlaen yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Cofion gorau,

Richard Thomas
Arolygydd Ei Fawrhydi
dros Addysg a Hyfforddiant